Ailgylchu yn y gweithle – mae'n bryd i ni sortio hyn

Adnoddau ar gyfer y sector addysg

Cyflwyniad

Daeth y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd i rym ar 6 Ebrill 2024, gan ei gwneud yn ofynnol i bob safle annomestig yng Nghymru wella'r ffordd y mae'n ailgylchu.

Mae'r gyfraith newydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithle, gan gynnwys busnesau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector, wahanu'r deunyddiau cartref ailgylchadwy canlynol oddi wrth ei wastraff cyffredinol:

- **Bwyd** sy'n wastraff, gan gynnwys bwyd dros ben neu wastraff a gynhyrchir wrth baratoi bwyd
- **Papur a cherdyn** fel hen bapurau newydd ac amlenni, blychau dosbarthu a deunydd pecynnu
- **Metel, plastig, a chartonau** a deunydd pecynnu arall
- **Gwydr** fel poteli diod a jariau bwyd
- **Tecstilau heb eu gwerthu** fel dillad a rhai nad ydynt yn ddillad
- **Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu**

Pam mae'r gyfraith hon wedi'i chyflwyno?

Mae Cymru ar hyn o bryd yn ail yn y byd o ran ailgylchu gwastraff o gartrefi. Mae'r gyfradd ailgylchu o gartrefi ar hyn o bryd ychydig dros 65% ac mae'n helpu i arbed tua 400,000 tunnell o allyriadau carbon bob blwyddyn.

Y nod yw adeiladu ar lwyddiant ailgylchu gwastraff cartref a sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ar draws gweithleoedd hefyd.

Bydd y gyfraith newydd yn helpu i wella ansawdd a maint y deunyddiau a gesglir i'w hailgylchu.

Beth mae hyn yn ei olygu i leoliadau addysgol?

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i bob lleoliad addysgol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion gwladol a phreifat, yn ogystal â sefydliadau addysg bellach ac uwch, megis colegau a phrifysgolion.

Fel rheoleiddiwr y gyfraith hon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru am gefnogi gweithleoedd yng Nghymru i wella maint ac ansawdd eu hailgylchu a lleihau eu risg o ddiffyg cydymffurfio.

Ein ffocws cychwynnol yw codi ymwybyddiaeth o'r gofynion gwahanu gwastraff a sut maent yn berthnasol i'ch gweithle, a darparu cymorth a chyngor ar sut i gydymffurfio.

Mae ystod eang o ganllawiau ac adnoddau wedi'u datblygu i gefnogi'r rhai sydd angen gwahanu eu gwastraff. Rydym wedi cynhyrchu'r pecyn hwn i ddod â'r adnoddau hynny ynghyd a helpu lleoliadau addysg ledled Cymru i gydymffurfio â'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle.

Mae'r pecyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a awgrymir gyda'r nod o ennyn diddordeb dysgwyr fel rhan o'r broses.

Gweithgareddau er mwyn inni ei sortio

Arweiniad

Gweithgareddau a awgrymir:

- Darllenwch yr arweiniad ar gyfer y sector addysg, a baratowyd gan WRAP Cymru.
- Corff anllywodraethol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd yw WRAP sy'n gweithio ledled y byd i fynd i'r afael ag achosion yr argyfwng hinsawdd a rhoi dyfodol cynaliadwy i'r blaned.
- Yn rhan o WRAP, mae WRAP Cymru yn darparu pecyn gwaith penodol i Gymru i gefnogi nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.
- Wedi'i gynnwys yn y canllaw:
    - Pam fod angen i chi ailgylchu
    - Sut i ddeall eich gwastraff ac ailgylchu'n well
    - Atal gwastraff yn y lle cyntaf
    - Sut i gydymffurfio â'r gyfraith ailgylchu yn y gweithle newydd
    - Sut i drefnu gwasanaeth ailgylchu newydd
    - Lle i'ch biniau?
    - Gwastraff bwyd a hylendid
    - Ymgysylltu â staff a disgyblion
    - Adnoddau

Dolenni defnyddiol:

- Canllawiau ar gyfer y sector addysg | WRAP Cymru https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/canllaw-ailgylchu/addysg

Gweminar

Gweithgareddau a awgrymir:

- Gwyliwch y weminar a gynhelir gan WRAP Cymru am arweiniad ymarferol sy'n benodol ar gyfer y sector addysg, gyda siaradwyr yn cynnwys Meirion Edwards (Cyngor Sir Ynys Môn), Georgina Taubman (Prifysgol Caerdydd) a Gareth Davies (Busnes Cymru).

Dolenni defnyddiol:

- Recordiad gweminar (Saesneg yn unig) | WRAP Cymru https://videos.ctfassets.net/n1zl2ighrxeg/2CZY7E1PdipQK8AteL1o15/b57f36ca7394d9dc1cfef88bb480164d/Education_Recording.mp4
- Sleidiau cyflwyniad gweminar | WRAP Cymru https://assets.ctfassets.net/n1zl2ighrxeg/7tROb4le99hZAzQNpsWll8/f7016d6fe96893a98b7f9df53e94d9ef/Education_webinar-Cymraeg.pdf
- Gweminar holi ac ateb | WRAP Cymru https://assets.ctfassets.net/n1zl2ighrxeg/2S4KT87zRzoCSWA3LQ8S6o/b7ea8dad2998271a1c5f29ffa32d3c84/Education_Q_A_-_Cymraeg.pdf

Trosolwg

Gweithgareddau a awgrymir:

- Darllenwch y Pecyn Adnoddau Cyfathrebu i gael yr holl wybodaeth gefndir y bydd ei hangen arnoch, gan gynnwys trosolwg o'r canlynol:
  - Beth yw'r gyfraith newydd a pham y cafodd ei chyflwyno
  - Manteision ailgylchu yn y gweithle
  - Ffeithiau allweddol
  - Cymorth ac adnoddau

Dolenni defnyddiol:

- Pecyn Adnoddau Cyfathrebu | WRAP Cymru https://assets.ctfassets.net/n1zl2ighrxeq/6VaKfEyzrc8mcCLtUEn24k/6b67f9d3573f83fb5cf8d80c309ae93a/Welsh_Communications_Resources_Pack.pdf

Pam ailgylchu?

Gweithgareddau a awgrymir:

- Dysgwch am ailgylchu a pham ei fod yn bwysig.
- Gallech ymchwilio i'r canlynol:
  - Pa ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu?
  - Pa effaith amgylcheddol mae ailgylchu yn ei chael?
  - Sut mae ailgylchu yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd?
  - Pwy sy'n gyfrifol am ailgylchu?
  - Beth yw ystyr lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu?
  - Beth yw ystyr symbolau ailgylchu?
  - Ydy Cymru yn dda am ailgylchu?
  - Ffeithiau difyr a ffigyrau hwyliog

- Gwyliwch astudiaethau achos ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru i ddarganfod beth mae lleoliadau addysgol eraill wedi bod yn ei wneud i wella eu hailgylchu.

Dolenni defnyddiol:

- Ailgylchu yn y Gweithle: mae'n bryd i ni sortio hyn | Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle
- Mae ailgylchu yn helpu i amddiffyn ein planed, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud | Cymru'n Ailgylchu https://www.walesrecycles.org.uk/cy
- Ble mae'ch ailgylchu yn mynd? | Fy Ailgylchu Cymru https://myrecyclingwales.org.uk/cy
- Cymru yn ail yn y byd am gyfraddau ailgylchu (Saesneg yn unig) | BBC News https://www.bbc.co.uk/news/articles/c511344v959o
- Ailgylchu yn y Gweithle Prifysgol Caerdydd | YouTube https://www.youtube.com/watch?v=kS8EhmhVzJc
- Ailgylchu yn y Gweithle yn Ysgol Rhiw-bechan, Powys | YouTube https://www.youtube.com/watch?v=xHcgQtCeyzE

Atal gwastraff

Gweithgareddau a awgrymir:

- Gwnewch weithgaredd taflu syniadau neu dasg ymchwil i ystyried sut y gallwch leihau eich gwastraff.
- Defnyddiwch eich syniadau i greu cynllun atal gwastraff.
- Fe allech chi wneud y canlynol:
    - Cyfrannu stoc dros ben neu heb ei gwerthu
    - Defnyddio llai o bapur mewn gwersi
    - Llungopïo/argraffu ar ddwy ochr papur
    - Defnyddio papur sgrap ar gyfer nodiadau, drafftiau, profion sillafu ac ati
    - Defnyddio dulliau marchnata a chyfathrebu di-bapur, a ffurflenni ar-lein
    - Prynu cynhyrchion wedi'u hailgylchu neu y gellir eu hail-lenwi neu eu hailddefnyddio lle bynnag y bo modd
    - Defnyddio deunydd pecynnu ar gyfer prosiectau celf a chrefft
    - Darparu ffynhonnau dŵr i staff a myfyrwyr eu defnyddio

    - Defnyddio cwpanau, llestri ac offer y gellir eu hailddefnyddio yn y ffreutur
    - Gwneud pecynnau bwyd mor ddiwastraff â phosibl trwy annog llai o ddeunydd pecynnu a photeli diodydd y gellir eu hailddefnyddio
    - Ar gyfer diodydd tecawê, annog staff a disgyblion i ddod â'u cwpanau eu hunain y gellir eu hailddefnyddio drwy godi tâl am gwpanau untro
    - Sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ddeunydd pecynnu ar eich bwyd a diod tecawê a bod y deunydd pacio sy'n cael ei ddefnyddio yn gallu cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio
    - Dechrau tomen gompost
    - Os ydych yn cyflenwi bagiau nwyddau i wythnos y glas neu gofroddion i rai sy'n gadael, darparu anrhegion y gellir eu hailddefnyddio fel cwpanau coffi, poteli dŵr neu fagiau siopa amldro

Dolenni defnyddiol:

- Canllawiau ar gyfer Addysg: Atal gwastraff yn y lle cyntaf | WRAP Cymru https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/canllaw-ailgylchu/addysg/atal-gwastraff-yn-y-lle-cyntaf-Addysg
- Cymharu opsiynau pecynnu llaeth ar gyfer ysgolion cynradd Sir Fynwy | WRAP Cymru https://wrapcymru.org.uk/cy/adnoddau/astudiaeth-achos/cymharu-opsiynau-pecynnu-llaeth-ar-gyfer-ysgolion-cynradd-sir-fynwy

Archwiliad gwastraff

Gweithgareddau a awgrymir:

wrap Cymru | Y Busnes o Ailgylchu Cymru | The Business of Recycling Wales

The Business of Recycling Wales: Waste Audit Guide

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

- Cynhaliwch archwiliad gwastraff i ddarganfod y gwahanol fathau o wastraff, a'u meintiau, rydych chi'n eu cynhyrchu.
- Gall yr ardaloedd sydd fwyaf tebygol o gynhyrchu gwastraff ar eich safle gynnwys:
    - Ffreuturau a cheginau – gwastraff bwyd a deunydd pecynnu
    - Ystafelloedd staff – gwastraff papur a deunydd pecynnu
    - Swyddfeydd cyffredinol – papur
    - Ystafelloedd dosbarth a gweithleoedd – papur a gwastraff bwyd
    - Tiroedd allanol fel meysydd chwarae ysgolion a champysau'r coleg neu brifysgol – gwastraff bwyd a deunydd pecynnu
    - Gall sefydliadau addysgol hefyd gynhyrchu mathau o wastraff peryglus, fel paent, olew neu gemegau, sydd angen eu casglu gan wasanaeth casglu gwastraff arbenigol
- Dangoswch eich canlyniadau mewn tabl, siart neu graff.

Dolenni defnyddiol:

- Canllaw archwiliad gwastraff | WRAP Cymru https://assets.ctfassets.net/n1zl2ighrxeq/7xUBV71cPp9N5swxxj7O7i/ff36e78ac877d39e9cddbf0e961af621/Waste_Audit_Guide_Cymraeg.pdf

Gwneud cynllun

Gweithgareddau a awgrymir:

- Defnyddiwch ganlyniadau eich archwiliad gwastraff i weithio allan pa finiau sydd eu hangen arnoch, faint ohonyn nhw, a ble fyddai'r lleoedd gorau iddyn nhw.
- Cynlluniwch ble i roi biniau ailgylchu yn strategol o amgylch eich ysgol. Gallwch osod biniau ailgylchu papur ger y llungopïwr, a biniau plastig a gwastraff bwyd yn y ffreutur. Y pwynt yw gwneud ailgylchu mewn ysgolion yn hawdd!
- Crëwch fap o'ch safle yn dangos i ble y dylai eich biniau fynd.

Didoli’r gwastraff

Gweithgareddau a awgrymir:

- Crëwch eich ardaloedd ailgylchu a biniau newydd.
- Sicrhewch fod ardaloedd storio gwastraff:
    - Yn ddiogel ac yn hygyrch i bobl, gan gynnwys i ddefnyddwyr ag anableddau, a’ch casglwr gwastraff
    - Ddim mewn lleoliadau sy’n achosi rhwystr neu berygl tân neu sy’n rhwystro llwybrau dianc
    - Heb eu lleoli ger ardaloedd paratoi neu storio bwyd am resymau diogelwch a hylendid bwyd
    - Yn agos at ble mae’r gwastraff a’r deunyddiau ailgylchadwy yn cael eu cynhyrchu
    - Yn daclus, yn lân, ac yn rhydd o annibendod neu wastraff rhydd
- Sicrhewch fod biniau:
    - Yn ddigon mawr i ddal y mathau a’r maint o wastraff a deunyddiau ailgylchadwy rydych yn eu cynhyrchu a’u storio rhwng casgliadau
    - Yn cau’n dynn ac yn peidio â gadael i wastraff neu ddeunydd ailgylchadwy ddianc
- Ceisiwch osgoi gosod biniau gwastraff cyffredinol ar eu pen eu hunain – pan fydd pobl yn cael cyfle i ailgylchu, maen nhw fel arfer yn gwneud hynny!

Dolenni defnyddiol:

- Canllawiau ar gyfer Addysg: Lle ar gyfer eich biniau | WRAP Cymru https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/canllaw-ailgylchu/addysg/lle-ar-gyfer-eich-biniau-addysg

Arwyddion

Gweithgareddau a awgrymir:

- Argraffwch ac arddangoswch labeli â chodau lliw ar gyfer eich biniau ac arwyddion i ddangos pa wastraff sy’n mynd i ble.
- Mae amrywiaeth o eiconau ar gael i’w lawrlwytho am ddim o WRAP Cymru.
- Argraffwch labeli maint A5 ar gyfer biniau ac A4 ar gyfer arwyddion.

- Gallech wneud eich arwyddion eich hun drwy atodi enghreifftiau go iawn (neu luniau) o'r mathau o wastraff a gynhyrchir ar y safle, i helpu pawb i wybod beth y gellir ei roi ym mhob bin.

Dolenni defnyddiol:

- Ailgylchu yn y gweithle: delweddau ar gyfer arwyddion a chynwysyddion ailgylchu | WRAP Cymru https://wrapcymru.org.uk/cy/resources/campaign-assets/ailgylchu-yn-y-gweithle-delweddau-ar-gyfer-arwyddion-chynwysyddion

Posteri

Gweithgareddau a awgrymir:

- Argraffwch ac arddangoswch bosteri i hyrwyddo ailgylchu a sicrhau bod pawb yn gwybod beth all ac na all fynd i bob bin.
- Mae WRAP Cymru yn darparu amrywiaeth o bosteri y gellir eu lawrlwytho am ddim mewn fformatau PDF, InDesign ac MS Word, gyda'r opsiwn o boster 'llai o inc' sydd angen llai o inc i'w argraffu.
- Gwnewch arddangosfa ar gyfer eich ystafell ddosbarth neu ardal ailgylchu.
- Dyluniwch eich poster eich hun.

Dolenni defnyddiol:

- Posteri maint A5, A3 ac A4 i'w lawrlwytho | WRAP Cymru https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/adnoddau

Cyflwyniad

Gweithgareddau a awgrymir:

- Defnyddiwch y templed PowerPoint gyda brand Busnes o Ailgylchu Cymru i ddylunio cyflwyniad
- Rhowch gyflwyniad i'ch dosbarth neu yn ystod y gwasanaeth i gyflwyno eich biniau ac arwyddion newydd i helpu eraill i ailgylchu'n gywir

Dolenni defnyddiol:

- Templed PowerPoint | WRAP Cymru https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fassets.ctfassets.net%2Fn1zl2ighrxeq%2F6JAI2QhnqkzLRpRMZqB1EC%2F0315f16ed0a62761f5d0f409b0c6d3f2%2FWRAP_BOR_Welsh_PP_TEMPLATE.pptx&wdOrigin=BROWSELINK

Lledaenu'r gair

Gweithgareddau a awgrymir:

- Sicrhewch fod pawb yn gwybod am eich cynllun ailgylchu newydd – ysgrifennwch lythyr, anfonwch e-bost, trefnwch gyfarfod neu cynhwyswch erthygl yng nghylchlythyr eich ysgol
- Efallai y bydd angen i chi gysylltu â'r canlynol:
    - Staff addysgu
    - Cydlynwyr Eco-Ysgolion
    - Swyddogion cynaliadwyedd
    - Y gofalwr
    - Staff glanhau
    - Staff arlwyo
    - Staff tiroedd

Dolenni defnyddiol:

- Canllawiau ar gyfer Addysg: Ymgysylltu â staff a disgyblion | WRAP Cymru https://busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk/canllaw-ailgylchu/addysg/ymgysylltu-a-staff-a-disgyblion

Pencampwyr ailgylchu

Gweithgareddau a awgrymir:

- Cynhaliwch etholiad i enwebu hyrwyddwyr ailgylchu ar gyfer eich dosbarth neu leoliad
- Gwnewch fathodyn ar gyfer eich hyrwyddwyr ailgylchu o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu
- Cefnogwch eich hyrwyddwyr ailgylchu i wirio'r biniau'n rheolaidd i sicrhau bod deunyddiau'n cael eu hailgylchu'n gywir
- Rhannwch eich cynnydd a'ch cyflawniadau i helpu i gadw pawb yn frwdfrydig i barhau i ailgylchu

Casglu sbwriel

Gweithgareddau a awgrymir:

- Hyd yn oed os yw eich ardaloedd ailgylchu newydd wedi'u gosod, efallai fod sbwriel arall ar eich safle sydd angen ei ddidoli, felly gallech drefnu sesiwn codi sbwriel.
- Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw casglu sbwriel ar wahân trwy ddefnyddio gwahanol fagiau neu gynwysyddion ar gyfer pob ffrwd wastraff, h.y. mae un yn casglu papur, mae un arall yn casglu plastig a chaniau. Yna gellir rhoi'r gwastraff yn y bin cywir i'w gasglu.
- Cofiwch ddefnyddio codwyr sbwriel i godi unrhyw sbwriel a gwisgwch fenig i gadw'n saff!
- Mae mwy na 200 o Hybiau Codi Sbwriel ar agor ledled Cymru, gan gynnig yr holl offer sydd eu hangen arnoch i gynnal sesiwn codi sbwriel ddiogel am ddim.

Dolenni defnyddiol:

Hybiau Codi Sbwriel Caru Cymru | Cadwch Gymru'n Daclus
https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/hybiau-codi-sbwriel/

Ymuno â'r Ymgyrch Gwastraff Bwyd Gwych

Gweithgareddau a awgrymir:

- Ymunwch â'r Ymgyrch Gwastraff Bwyd Gwych am weithgareddau am ddim sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm i blant 5 i 11 oed i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ailgylchwyr i wastraffu llai ac ailgylchu mwy.
- Bydd disgyblion yn dysgu am werth bwyd, a pham ei bod yn bwysig gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym ac ailgylchu'r hyn na ellir ei fwyta a'i drawsnewid yn ynni adnewyddadwy.

Dolenni defnyddiol:

- Ymunwch â'r Ymgyrch Gwastraff Bwyd Gwych | Cymru'n Ailgylchu
https://www.walesrecycles.org.uk/cy/ysgolion

Eco-Sgolion

Gweithgareddau a awgrymir:

- Nawr eich bod wedi trefnu eich ailgylchu, mae llawer mwy y gallwch ei wneud i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r amgylchedd.
- Edrychwch ar wefan Eco-Sgolion am ystod eang o adnoddau sydd wedi'u cynllunio i gyflwyno disgyblion i rai o'r materion amgylcheddol pwysicaf sy'n wynebu Cymru a'r byd.
- Mae'r pynciau cysylltiedig yn cynnwys lleihau gwastraff a sbwriel, gydag adnoddau y gellir eu lawrlwytho ac astudiaethau achos ar gael.

Dolenni defnyddiol:

- Adnoddau Cynradd | Eco-Sgolion, Cadwch Gymru'n Daclus https://keepwalestidy.cymru/eco-schools/cy/adnoddau-cynradd/
- Adnoddau Uwchradd| Eco-Sgolion, Cadwch Gymru'n Daclus https://keepwalestidy.cymru/eco-schools/cy/adnoddau-uwchradd/

Cysylltu ag CNC

Gweithgareddau a awgrymir:

- Anfonwch e-bost at y Tîm Ailgylchu yn y Gweithle yn Cyfoeth Naturiol Cymru ailgylchuynygweithle@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- Gofynnwch gwestiwn i ni neu am gyngor ar sut i wella eich ailgylchu
- Neu anfonwch luniau o'ch gwaith atom – byddem wrth ein bodd yn gweld sut rydych wedi gwella eich ailgylchu!
- Cewch ateb o fewn 10 diwrnod gwaith

Dolenni defnyddiol:

- Gwefan | Cyfoeth Naturiol Cymru https://naturalresources.wales/?lang=cy
- Ailgylchu yn y Gweithle – dulliau CNC o reoleiddio | Cyfoeth Naturiol Cymru https://naturalresources.wales/about-us/news-and-blogs/blogs/workplace-recycling-nrw-approaches-to-regulating/?lang=cy

Rhagor o gymorth

Rydym yn cydnabod maint y newid hwn ac yn gwerthfawrogi'r ymdrechion y mae gweithleoedd eisoes wedi'u gwneud i gynyddu ailgylchu o ansawdd gwell yng Nghymru.

Lle mae angen cymorth, byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i'ch cefnogi i gydymffurfio â'r rheoliadau. Cysylltwch â'r Tîm Ailgylchu yn y Gweithle drwy e-bostio:

ailgylchuynygweithle@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, gwelwch ein tudalen we:

Ailgylchu yn y gweithle: gwahanu eich gwastraff ar gyfer ei gasglu | Cyfoeth Naturiol Cymru
https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/waste-management/workplace-recycling-separating-your-waste-for-collection/?lang=cy